- sefydlodd y Cyngor ei Weithgor Trawsbleidiol ar Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol ar ôl datgan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Cefnogwyd y Gweithgor gan dîm o swyddogion. Gweithiodd y grŵp drwy gydol pandemig COVID-19, gan ymgysylltu â swyddogion a dinasyddion, i lunio Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol 2021-22 i 2029-30 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021. Y bwriad gwreiddiol oedd i'r grŵp hwn gael ei ddiddymu ar ôl i'r Strategaeth gael ei mabwysiadu. Dywed y Cyngor y bydd y grŵp hwn yn aros yn ei le tan ddiweddu y Cyngor presennol ym mis Mai 2022 ac yn gweithredu fel gwiriad ychwanegol ar gydymffurfiaeth a chynnydd y Strategaeth a'r cynllun gweithredu. Mae ychwanegu'r trydydd grŵp hwn at y ddau fwrdd a grybwylir uchod yn drysu atebolwydd ymhellach.
- un o argymhellion allweddol y gweithgor oedd diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i gynnwys yr angen i ddal 'sylw ar fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol' yn Egwyddorion Gwneud Penderfyniadau. Mae'r Cyngor bellach wedi ymrwymo'n ffurfiol i ystyried newid hinsawdd ac ecolegol wrth wneud holl benderfyniadau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymgorffori'r ymrwymiad hwn ymhellach drwy ddiwygio nifer o ddogfennau a thempled i allweddol fel bod yn rhaid i swyddogion ystyried yn benodol effeithiau amgylcheddol wrth ysgrifennu adroddiadau:
 - mae'r templed newydd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gadarnhau eu bod wedi ymgysylltu â swyddogion sy'n cyflwyno'r Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol ac egluro sut maent wedi ystyried y ddau nod yn eu cynigion.
 - mae'r Rheolwr Newid Hinsawdd yn bwriadu adolygu sampl o adroddiadau wedi'u cwblhau i fonitro pa mor dda y mae awduron yn ystyried effeithiau amgylcheddol.
 - un darn o waith nad yw'r Cyngor wedi'i gwblhau eto yw darparu canllawiau ar gyfer cyfrifo costio oes gyfan yn nhemplled Achos Busnes y Grŵp Buddsoddi Arwyddocaool.
 - mae Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor yn dod i ben yn 2021. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo gyd-fynd â'r uchelgais

gorfforaethol i ddod yn Ddi-Garbon Net a chyflwyno polisi Gwaredu a Chaffael Asedau newydd sy'n cefnogi'r Cyngor i gadw a/neu brynu tir at ddibenion amsugno carbon a gwella ecolegol. Mae Strategaeth Rheoli Asedau newydd yn cael ei drafftio sy'n nodi uchelgeisiau amgylcheddol y Cyngor.


- nid yw'r Strategaeth yn cael ei chefnogi gan gynllun deng mlynedd manwl wedi'i gostio. Fodd bynnag, mae tîm y prosiect wedi nodi gofyniad cyffredinol o £18 miliwn am gyfnod y Strategaeth. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif bod cost y prosiectau y mae eisiau eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf yn £9 miliwn. Mae hefyd wedi amcangyfrif y gost ar gyfer y prosiectau ar gyfer y chwe blynedd sy'n weddill o'r strategaeth sef £9 miliwn ychwanegol.
- nid yw'r Strategaeth yn cael ei chefnogi gan gynllun deng mlynedd manwl wedi'i chostio ond mae'n amlinellu cyfanswm y gofyniad i gyflawni ei nodau. Mae'n nodi, 'I gyflawni'r strategaeth hon dros y 3 blynedd nesaf, credwn y bydd yn costio tua £9 miliwn o bunnau i gyflawni'r prosiectau sydd eu hangen i gyflawni popeth yr hoffem ei wneud. Rydym yn tybio y bydd angen i ni fuddsoddi ffigur tebyg yn y dyfodol yn arwain at 2030.' I ddechrau, gwnaethom ddehongli'r datganiad hwnnw fel gofyniad cost cyffredinol o £18 miliwn (h.y. cost o £9 miliwn ar gyfer y prosiectau y mae'r Cyngor eisiau eu cyflawni am y tair blynedd cyntaf, a £9 miliwn ychwanegol am y chwe blynedd sy'n weddill o oes y Strategaeth). Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dweud wrthym y bydd cyfanswm y gofyniad o leiaf £27 miliwn gan ei fod yn amcangyfrif cost o £9 miliwn o leiaf am bob tair blynedd o'r Strategaeth ddeng mlynedd. Er mwyn osgoi'r amwysedd hwn, dylai'r Cyngor wneud y Strategaeth mor glir â phosibl.
- mae'r Cyngor yn bwriadu ymgymryd â benthyca darbodus bob blwyddyn ynghyd â mynd ati i geisio cyllid grant allanol i ddarparu'r £9 miliwn ar gyfer tair blynedd cyntaf y Strategaeth. Er bod y cyllid ar gyfer 2021-22 wedi'i gymeradwyo a'r ddarpariaeth wedi'i nodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) ar gyfer blwyddyn 2 a 3 o'r strategaeth, bydd cyllid y Cyngor ar gyfer y Rhaglen yn cael ei ystyried mewn trafodaethau cyllideb blynyddol yn y dyfodol. Er bod cyllideb gyffredinol y Rhaglen yn cael ei chymeradwyo flwyddyn ar ôl blwyddyn, nid yw'r prosiectau unigol sydd i'w cyflawni y flwyddyn honno gan ddefnyddio dyraniad y gyllideb yn cael eu cymeradwyo nes bod achos busnes wedi'i ystyried drwy Grŵp Buddsoddi Arwyddocaol y Cyngor (SIG).
- bydd angen i'r Cyngor adolygu cyllid mewn cysylltiad â'i fesurau perfformiad a nodwyd i werthuso a yw'r buddsoddiad yn cyflawni'r nodau a fwriedir. Mae eisoes wedi nodi fforddiadwyedd fel risg allweddol o ran cyflawni'r Strategaeth.
- dywedodd swyddogion wrthym fod mwy o alw ar aelodau'r Tîm Bioamrywiaeth erbyn hyn wrth i fwy o bobl fynd atynt am gyngor a sylwadau ar adroddiadau. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol gan y Cyngor, mae perygl hefyd i gapasiti'r tîm hwn yn y dyfodol wrth i'r galw dyfu.

Mae'r tîm sy'n cyflwyno'r Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn ymwybodol y gallai fod heb ddigon o adnoddau o ran arbenigedd technegol mewn rhai meysydd ac mae wedi datgan y bydd yn monitro'r sefyllfa'n fanwl wrth symud ymlaen. Nid oeddym yn gallu cael cynllun gweithlu ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol sy'n nodi'r adnoddau sydd eu hangen nawr ac yn y dyfodol, i gyflawni'r Strategaeth.

- cynhaliwyd grwpiau ffocws ac arolygwyd staff fel rhan o'n hadolygiad. Dywedodd y grwpiau ffocws a'r arolwg wrthym fod llawer iawn o falchder ymhlið cyngorwyr a gweithwyr yn y gwaith hwn, a bod creu a chyflawni'r strategaeth hon 'y peth iawn i'w wneud'.
- tynnodd y grwpiau ffocws a'r arolwg sylw hefyd at lefelau amrywiol o ffydd o ran cyflawni uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd.

Arddangosyn 2: ymateb arolwg i'r datganiad, 'Rwy'n ffyddiog y bydd y Cyngor yn cyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd.'

Mae'r siart isod yn dangos ymatebion i'n harolwg lle gofynnwyd i ymatebwyr ddweud faint yr oeddent yn cytuno â'r datganiad, 'Rwy'n ffyddiog y bydd y Cyngor yn cyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd'. Gofynnwyd iddynt ddewis o'r opsiynau canlynol: 'Cytuno'n gryf', 'Cytuno', 'Niwtral', 'Anghytuno' neu 'Anghytuno'n gryf'.



Er bod dros 45% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad, dewisodd bron i 46% yr opsiwn 'niwtral' ac ni allwn ddweud a yw'r grŵp hwn yn ffyddiog ai peidio.

Cyflwynodd y grwpiau ffocws ddarlun tebyg pan ofynnwyd i'r cynrychiolwyr sgorio eu lefelau o ffydd yn y Cyngor o ran cyflawni ei uchelgeisiau, ar raddfa o un (ddim yn ffyddiog o gwbl) i chwech (ffyddiog). Y sgôr gyfartalog ar draws yr holl grwpiau ffocws oedd 3.89 a dywedodd y cynrychiolwyr wrthym eu bod yn credu bod y nodau'n uchelgeisiol iawn, o bosibl yn rhy anodd; roeddent o'r farn ei bod yn anodd gwybod beth fyddai'n digwydd gyda datblygiadau technolegol yn gwneud y dyfodol yn aneglur; ac roedd yn rhy gynnar yn nhaith y Cyngor tuag at nodau 2030 i fod yn gwbl ffyddiog. Y prif bryder a ddeilliodd o'r grwpiau ffocws oedd yr ansicrwydd pa un a oedd y Cyngor wedi sicrhau adnoddau digonol i gyflawni'r nodau. Nid oedd y cynrychiolwyr yn glir a oedd y bobl a'r cyllid gofynnol ar waith i gyflawni'r Strategaeth.

Mae'r Cyngor wedi cyfathrebu'n dda â dinasyddion, gan geisio llywio, dylanwadu a newid ymddygiad, a byddai mapio rhanddeiliaid mewn modd mwy cynhwysfawr yn cryfhau ymgysylltiad ymhellach

7 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi llunio cynllun cyfathrebu clir a manwl i gefnogi ei Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol.
 - mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth o waith, gan gynnwys negeseuon craidd, cyfathrebu 'cadw'n wybodus', a gweithgaredd 'newid ymddygiad'.
 - roedd y cynllun hefyd yn cynnwys adran ar fapio rhanddeiliaid, ond nid oedd hon wedi'i chwblhau. Dywed y Cyngor ei fod wedi cwblhau dadansoddiad anffurfiol yngylch gyda phwy y mae angen iddo weithio, ond nid yw wedi cwblhau dadansoddiad ffurfiol o bartneriaid. Byddai cwblhau'r ddau faes hyn yn helpu'r Cyngor i ddeall sut i gryfhau ymgysylltiad yn y dyfodol.
- mae'r Cyngor wedi cynhyrchu strategaeth fanwl sy'n egluro'n glir ei neges gyffredinol, ei ddau nod, a sut y mae'n bwriadu eu cyflawni.
 - mae'r Strategaeth ar gael mewn gwahanol fformatau (llawn, ieuenciad, hawdd ei darllen) ac fe'i cefnogir gan ffeithlun syml, diddorol a chlir.
 - mae'r Strategaeth yn cynnwys 'Cardiau Post o'r Dyfodol' sy'n darparu naratif diddorol i esbonio beth fyddai ffurf a gwedd 'da' pe bai'r Cyngor yn cyflawni ei nodau hinsawdd ac ecolegol i leihau allyriadau carbon, cynyddu amsugno carbon, lleihau allyriadau carbon y gadwyn gyflenwi, a sicrhau positifrwydd ecolegol.
- cynhaliodd y Cyngor ddau gyfnod o ymgysylltu â'r cyhoedd i lywio a llunio ei ymateb i'r datganiad argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Cynhalwyd yr ail gyfnod yn ystod pandemig COVID-19.
 - roedd y digwyddiad cyntaf yn Ionawr-Chwefror 2020 i gasglu adborth ar y nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol, gan gynnwys cyfarfod ymgysylltu â'r cyhoedd ym mis Chwefror 2020.
 - yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyntaf ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020, gofynnodd y Cyngor am adborth ar y nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol. Gofynnodd y Cyngor hefyd am syniadau ar sut y gallai gyflawni'r nodau erbyn 2020. Roedd y cyfnod ymgynghori hwn yn cynnwys cyfarfod ymgysylltu â'r cyhoedd ym mis Chwefror 2020. Ffurfiodd y Cyngor 'fanc syniadau' o'r adborth a gasglodd a'u blaenoriaethu i'r enillion mwyaf a hawsaf o ran lleihau carbon, cynyddu dal a storio carbon, a gwella bioamrywiaeth.
 - roedd yr ail gyfnod o ymgysylltu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020 yn canolbwytio ar gasglu adborth ar y Strategaeth ddrafft. Cynhaliodd y Cyngor gyfarfod cyhoeddus ar-lein ym mis Tachwedd

2020 er mwyn i bobl ddysgu mwy am y strategaeth a rhoi adborth ar lafar a gofyn cwestiynau. Roedd aelodau o'r cyhoedd yn gallu cwblhau arolwg ar-lein yn y sesiynau hyn i roi eu hadborth. Defnyddiwyd yr adborth hwn i lunio'r Strategaeth derfynol.

- sefydlodd y Cyngor is-grŵp o'i ganolfan ymgynghori ac ymgysylltu 'Y Panel', i ganolbwyntio ar y Newid Hinsawdd. Casglodd gyfeiriadau e-bost i lunio 'rhestr bostio werdd' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb sydd â diddordeb yn y cynydd o ran cyflawni'r ddau nod a datblygu'r Strategaeth.
- mae'r Cyngor yn ymwybodol bod codi ymwybyddiaeth o gynlluniau penodol i helpu i gyflawni ei nodau amgylcheddol yn anodd. Er enghraifft, er gwaethaf anfon gohebiaeth ynghylch 'No Mow May' nid yw trigolion bob amser yn deall pam mae ymylon glaswellt bellach yn cael eu cynnal mewn ffordd wahanol. O ganlyniad, mae trigolion yn cwyno wrth gynghorwyr lleol eu bod nhw eisiau i ymylon glaswellt gael eu torri. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd newid ymddygiad yn cymryd amser a bydd yn parhau i fynd i'r afael â materion o'r fath drwy ei weithgaredd cyfathrebu.

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i gyfathrebu â chynghorwyr a staff a'u hyfforddi, ac er bod dealltwriaeth yn datblygu'n dda mae angen mwy o fanylder ynghylch yr hyn y mae 'ecolegol gadarnhaol' yn ei olygu i'r Cyngor a sut mae'r uchelgeisiau'n dylanwadu ar waith beunyddiol pawb

8 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:


- mae'r Cyngor wedi ymgynghori â swyddogion a chynghorwyr i gasglu syniadau a gofyn am adborth.
 - yn ystod haf 2020, cynhaliodd y Cyngor weithdai rhithwir gyda phob maes gwasanaeth i gasglu syniadau ar gyfer diwygio polisiau, prosiectau a phrosesau i gefnogi'r uchelgeisiau i ddod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol. Rhoddodd y gweithdai hyn gyfle i'r Rheolwr Newid Hinsawdd rannu gwybodaeth gyda thimau gwasanaeth am y gwaith yr oedd yn ei oruchwyllo. Rhoddodd gyflwyniad ar ddechrau pob un o'r gweithdai hyn a oedd yn egluro'n glir yr argyfwng a'r datganiad o argyfwng, y ddau nod a'u mannau cychwyn, y llinell amser, a'r hyn yr oedd y Cyngor yn gobeithio ei gyflawni. Roedd y gweithdai hyn yn adeiladu ar y syniadau a gynhyrchwyd gan y cyhoedd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu Ionawr-Chwefror 2020 i helpu i lywio'r strategaeth ddrafft.
 - gwahoddwyd holl staff y Cyngor i roi sylwadau ar y Strategaeth ddrafft fel rhan o'r ymarfer ymgynghori cyffredinol. Anfonodd y Rheolwr Newid Hinsawdd neges e-bost at yr holl reolwyr canol i annog eu timau i ymgysylltu â'r ymgynghoriad.

- yn ystod mis Medi a mis Hydref 2020, casglodd y Cyngor syniadau gan gynghorwyr drwy drafodaethau a gynhaliwyd ym mhob cyfarfod Grŵp Ardal Aelodau.
- mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i gyfleo ei uchelgeisiau.
 - mae'r Cyngor wedi creu cyfres o dudalennau Newid Hinsawdd ar ei wefan, ac mae'n diweddu y rheini yn rheolaidd. Mae'r tudalennau hyn yn darparu mynediad i'r Strategaeth, yn egluro'n glir faterion newid hinsawdd ac ecolegol, ac yn disgrifio'n fanwl yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i leihau'r effeithiau.
 - y tri phrif ddull cyfathrebu a ddfyynnwyd gan weithwyr yn ein harolwg oedd negeseuon e-bost dyddiol 'Sir Ddinbych Heddiw', straeon Linc New, a gwefan y Cyngor.
- mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu sefydlu Grŵp Staff Eiriolaeth Hinsawdd, ond mae wedi oedi'r gwaith hwn oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r Cyngor o'r farn na fyddai'r grŵp ond yn effeithiol pan fyddai staff yn gweithio mewn swyddfeydd i ffrydio negeseuon allweddol a chwblhau gweithgaredd dilynol. Bydd y Cyngor yn adolygu'r angen am y grŵp hwn wrth iddo weithredu ei ddull 'Ffordd Newydd o Weithio'.
- mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant manwl ar lythrenedd carbon i tua 200 o bobl ac mae bellach yn bwriadu ailadrodd yr hyfforddiant hwn i gwmpasu'r nod ecolegol gadarnhaol. Mae cyfleoedd i ehangu hyfforddiant ymhellach ledled y sefydliad:
 - mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant llythrenedd carbon drwy Gymdeithas Rhagoriaeth yn y Sector Cyhoeddus (APSE) ar gyfer cynghorwyr, cyfarwyddwyr, penaethiaid gwasanaeth, uwch reolwyr, a swyddogion allweddol a nodwyd yn benodol (e.e. Cadeiryddion Llywodraethwyr mewn ysgolion). Bu llawer yn bresennol yn yr hyfforddiant a chafwyd adborth cadarnhaol.
 - mae'r Rheolwr Newid Hinsawdd wrthi'n ymchwilio i ateb drwy hyfforddiant tebyg ar gyfer llythrenedd ecolegol.
 - mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn creu modiwl e-ddysgu ar gyfer y gweithwyr hynny nad oeddent ar y cwrs APSE ar lythrenedd carbon. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau presennol i ddatblygu 'cyflwyniadau diogelwch' i ledaenu hyfforddiant ar y ddau nod i lawr drwy'r sefydliad.
 - dywedodd ein harolwg wrthym mai dim ond 21% o'r ymatebwyr a oedd wedi cael hyfforddiant ar uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd. Pan ofynnwyd pa hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael, atebodd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr, 'Hyfforddiant Llythrenedd Carbon (APSE)'. Soniodd nifer fach o ymatebwyr hefyd am gyflwyniadau gan swyddogion yn ymwneud â chyflwyno'r Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

- rhoddodd ein gwaith gyda'r grwpiau ffocws ddarlun cadarnhaol o'r hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor. Roedd chwe deg saith y cant o'r holl gynrychiolwyr ar draws yr holl grwpiau ffocws yn cytuno â'r datganiad, 'Rwyf wedi cael fy hyfforddi ar sut i ymgorffori uchelgeisiau amgylcheddol y Cyngor yn fy ngwaith.'

Arddangosyn 3: ymatebion arolwg i'r cwestiwn, 'Ydych chi wedi cael hyfforddiant ynghylch uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd? '


Mae'r siart isod yn dangos ymatebion i'n harolwg pryd gofynnwyd i ymatebwyr ateb y cwestiwn, 'Ydych chi wedi cael hyfforddiant ynghylch uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd?'. Gofynnwyd iddynt ddewis o'r opsiynau canlynol: 'Do' neu 'Naddo'.



- Dangosodd canlyniadau ein harolwg lefelau isel o hyfforddiant ar draws pob maes gwasanaeth.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud pobl yn ymwybodol o'i uchelgeisiau:
 - Gofynnodd i ymatebwyr yr arolwg a oedden yn ymwybodol o uchelgais y Cyngor i fod yn sefydliad di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol. Canfuom fod 84% o'r holl ymatebwyr yn ymwybodol o'r uchelgais.

Arddangosyn 4: Ymatebion arolwg i'r datganiad, 'Rwy'n deall uchelgais y Cyngor i fod yn sefydliad di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol.'

Mae'r siart isod yn dangos ymatebion i'n harolwg lle gofynnwyd i ymatebwyr ddweud faint yr oeddent yn cytuno â'r datganiad, 'Rwy'n deall uchelgais y Cyngor i fod yn sefydliad di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol'. Gofynnwyd iddynt ddewis o'r opsiynau canlynol: 'Cytuno'n gryf', 'Cytuno', 'Niwtral', 'Anghytuno' neu 'Anghytuno'n gryf'.




- Roedd dros 83% o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad, 'Rwy'n deall uchelgais y Cyngor i fod yn sefydliad di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol.'
- Dyweddodd ein gwaith gyda'r grwpiau ffocws wrthym fod swyddogion a chynghorwyr yn deall uchelgeisiau'r Cyngor. Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr yn y grwpiau ffocws nodi pa mor dda yr oeddent yn deall uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd ar raddfa o un (dim

o gwbl) i chwech (yn glir iawn). Y sgôr gyfartalog ar draws pob un o'r grwpiau ffocws oedd 4.55.

- Fodd bynnag, er bod y rhai a oedd yn bresennol yn y grwpiau ffocws yn gallu rhoi diffiniadau cywir ar gyfer y 'nod di-garbon net', prin oedd y cyfeiriad a wnaethant at y nod 'ecolegol gadarnhaol'. Gall hyn adlewyrchu'r pwynt cynharach bod 'ecolegol gadarnhaol' (neu gyfoeth bioamrywiaeth neu rywogaethau fel y'i diffinnir gan y Cyngor) yn gysyniad anoddach i bobl ei ddeall. Gall hyn hefyd fod o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ar y pwnc hwn hyd yn hyn (mae wedi darparu hyfforddiant ar lythrennedd carbon). Mae bod yn ecolegol gadarnhaol hefyd yn gysyniad mwy newydd o fewn y Cyngor na bod yn ddi-garbon net.
- Er eu bod yn ymwybodol o'r uchelgeisiau ac yn eu deall, roedd darlun cymysg o ba mor glir oedd pobl o ran sut y mae'r uchelgeisiau'n effeithio ar eu gwaith bob dydd. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y mater hwn ac yn cytuno bod rhagor o waith i'w wneud i wneud y cysylltiad hwn ar gyfer y sylfaen gweithwyr ehangach.

Arddangosyn 5: Atebion arolwg i'r datganiad, 'Rwy'n glir sut mae uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd yn effeithio ar fy ngwaith.'

Mae'r siart isod yn dangos ymatebion i'n harolwg lle gofynnwyd i ymatebwyr ddweud faint yr oeddent yn cytuno â'r datganiad, 'Rwy'n glir sut mae uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd yn effeithio ar fy ngwaith'. Gofynnwyd iddynt ddewis o'r opsiynau canlynol: 'Cytuno'n gryf', 'Cytuno', 'Niwtral', 'Anghytuno' neu 'Anghytuno'n gryf'.




- Roedd tua 44% o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad, 'Rwy'n glir yngylch sut mae uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd yn effeithio ar fy ngwaith.'
- Yn wahanol i hyn, dywedodd y grwpiau ffocws wrthym eu bod yn deall sut y byddai'r uchelgeisiau'n effeithio ar eu gwaith. Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr nodi pa mor dda yr oeddent yn deall sut y byddai uchelgeisiau'r Cyngor yn effeithio ar eu gwaith ar raddfa o un (dim o gwbl) i chwech (yn glir iawn). Y sgôr gyfartalog ar draws yr holl grwpiau ffocws oedd 4.68.

- Siaradodd y grwpiau ffocws yn gadarnhaol hefyd ynghylch canllawiau i helpu unigolion i ddeall sut y byddai'r uchelgeisiau'n effeithio ar eu gwaith. Roedd dros 70% o'r cynrychiolwyr ar draws yr holl grwpiau ffocws yn cytuno â'r datganiad, 'Mae canllawiau clir ar gael i fy helpu i ddeall sut y mae uchelgeisiau amgylcheddol y Cyngor yn effeithio ar fy ngwaith.'
- Dywedodd ein harolwg wrthym fod tua 61% o'r ymatebwyr wedi gweld neu wedi cael gwybodaeth am uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd.

Arddangosyn 6: ymatebion arolwg i'r cwestiwn, 'Ydych chi wedi gweld neu wedi cael unrhyw wybodaeth am uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd? '

Mae'r siart isod yn dangos ymatebion i'n harolwg lle gofynnwyd i ymatebwyr ateb y cwestiwn, 'Ydych chi wedi gweld neu wedi cael unrhyw wybodaeth am uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd?' Gofynnwyd iddynt ddewis o'r opsiynau canlynol: 'Do' neu 'Naddo'.



- Roedd meysydd gwasanaeth penodol a ddywedodd nad oeddent wedi gweld nac wedi cael unrhyw wybodaeth. Yn benodol, nododd y meysydd gwasanaeth canlynol lefelau is o ddarpariaeth o ran gwybodaeth – Ysgolion; Hamdden Sir Ddinbych Cyf; Gwasanaethau Addysg a Phlant a Chwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata.
- Dywedodd ein gwaith gyda'r grwpiau ffocws wrthym fod y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr o'r farn bod y Cyngor wedi cyfleu'r uchelgais yn glir.

Roedd dros 85% o'r cynrychiolwyr ar draws yr holl grwpiau ffocws yn cytuno â'r datganiad, 'Cafwyd cyfathrebu clir o ran uchelgais amgylcheddol y Cyngor a oedd yn esbonio popeth y mae angen i mi ei wybod.'

Mae'r Cyngor wedi rhoi mesurau sylfaenol ar waith gan ddefnyddio fframwaith perfformiad sefydledig, a bydd adrodd dros y flwyddyn nesaf yn helpu i ymgorffori'r uchelgeisiau amgylcheddol a galluogi'r mesurau i esblygu

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:


- yn ei Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol 2021-22 i 2029-30, mae'r Cyngor yn nodi'n glir y data sylfaenol y mae wedi'i sefydlu ar gyfer ei nodau di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol. Mae'r Strategaeth yn darparu data 2019-20 fel llinell sylfaen gan mai dyma'r flwyddyn wybodaeth sydd ar gael cyn blwyddyn gyntaf cyflwyno'r strategaeth yn 2021-22.
- mae'r Strategaeth yn egluro pob nod a'i man cychwyn yn glir. Mae'n mynd ymlaen i ddarparu targedau ar gyfer Blwyddyn 3, Blwyddyn 6, a Blwyddyn 9. Mae adroddiad rheoli perfformiad y Cyngor hefyd yn cynnwys ffigurau blynyddol i'w alluogi i fonitro cynnydd.
- mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gwblhau adolygiad ffurfiol o'i Strategaeth bob tair blynedd hyd at 2030. Mae hefyd wedi datgan y bydd yn adolygu'r targedau yn y Strategaeth wrth i dechnoleg newydd ddod i'r amlwg.
- mae'r Cyngor yn defnyddio dull sefydledig Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo ac adrodd ar ei effaith o ran carbon ond bu'n rhaid iddo greu ei ddull ei hun ar gyfer ei nod ecolegol gadarnhaol. Nid oedd dull cyffredin o fesur ei ecoleg, ond gan fod y Cyngor wedi rhoi'r un pwysigrwydd i'w ddau nod newid hinsawdd mae wedi creu ei fethodoleg ei hun ar gyfer mesur bioamrywiaeth (cyfoeth rhywogaethau).
- mae bod yn 'ecolegol gadarnhaol' yn gysyniad a allai fod yn anodd i bobl ei ddeall, felly mae'r Cyngor wedi canolbwytio ar fioamrywiaeth, neu gyfoeth rhywogaethau, ac wedi rhoi esboniadau clir o'r hyn y mae hyn yn ei olygu'n ymarferol. Dywedodd rheolwyr wrthym fod cynghorau eraill wedi bod mewn cysylltiad â hwy i ddysgu mwy am ei ddull arloesol.
- mae pob Cynllun Busnes Gwasanaethau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys dau fesur perfformiad o ran allyriadau carbon – tunelledd carbon a allyrrir gan y gwasanaeth drwy deithiau busnes a thunelledd carbon a allyrrir yn sgil staff yn cymudo. I ddechrau, roedd y Cyngor wedi cynnwys trydydd mesur ar dunelledd carbon a gafodd ei allyrru gan y gwasanaeth drwy ei gadwyn gyflenwi, ond cafwyd anawsterau o ran cael y data hwn ar lefel y gwasanaeth. O ganlyniad, dim ond ar lefel y Cyngor cyfan y bydd y mesur perfformiad ar gyfer allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn cael ei adrodd. Y

flwyddyn gyntaf o adrodd ar y mesurau hyn fydd 2021-22 a disgwylir yr adroddiad erbyn mis Mehefin bob blwyddyn.

- mae'r Strategaeth yn amlinellu'n benodol sut y bydd y Cyngor yn monitro cynnydd y nodau.
 - bydd Bwrdd y Cynllun Corfforaethol yn parhau i gyfarfod bob chwarter ac yn goruchwyllo cynnydd y Strategaeth, nes iddo gael ei ddiddymu ar ddiwedd y Cynllun Corfforaethol ar 31 Mawrth 2022.
 - gan fod y gwaith gwreiddiol yn fenter aelod o'r Cyngor, ni sefydlodd y Cyngor Fwrdd Rhaglen ar y cychwyn cyntaf. Creodd grŵp gorchwyl a gorffen trawsbleidiol a gefnogwyd gan swyddogion y Cyngor i gwblhau'r nodau a drafftio'r Strategaeth.
 - ers hynny mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd y Rhaglen ar gyfer Newid Hinsawdd ac Ecolegol a gyfarfu gyntaf ar 14 Mehefin 2021. Bydd y Bwrdd hwn yn cyfarfod bob chwe wythnos i oruchwyllo perfformiad a'r gwaith o gyflawni'r rhaglen a'i phrosiectau.
 - mae Bwrdd y Rhaglen yn llunio adroddiad o uchafbwyntiau chwarterol ar gyfer Bwrdd y Cynllun Corfforaethol.
 - mae Bwrdd y Rhaglen yn cael adroddiad o uchafbwyntiau gan y Rheolwr Newid Hinsawdd ar berfformiad pob ffrwd waith (statws ariannol, dangosyddion perfformiad yn defnyddio'r system sgorio coch, melyn a gwyrdd, gweithgaredd disgwyliedig, a risgau a phroblemau).
 - yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Mehefin 2021, nododd Bwrdd y Rhaglen arweinwyr ffrydiau gwaith ar gyfer yr holl brosiectau a'u rhoi ar waith i gadw golwg ar gynydd a thynnau sylw at unrhyw brosiectau na fyddant yn bodloni terfynau amser a/neu dargedau.
- i fonitro perfformiad, mae'r Cyngor wedi lanlwytho'r holl gamau gweithredu o'r Strategaeth i'w system rheoli perfformiad. Bydd y Rheolwr Newid Hinsawdd yn adolygu'r cynnydd o'i gymharu â'r camau gweithredu pan fydd y Cyngor yn llunio adroddiad perfformiad Chwarter 1 2021-22 am y tro cyntaf ym mis Awst 2021.
- dywedodd ein harolwg wrthym fod dealltwriaeth gymysg o sut y byddai'r Cyngor yn monitro cynnydd.

Arddangosyn 7: ymatebion arolwg i'r datganiad, 'Rwyf yn glir yngylch sut y bydd y Cyngor yn mesur perfformiad wrth gyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd.'

Mae'r siart isod yn dangos ymatebion i'n harolwg lle gofynnwyd i ymatebwyr ddweud i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad, 'Rwyf yn glir yngylch sut y bydd y Cyngor yn mesur perfformiad wrth gyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd'. Gofynnwyd iddynt ddewis o'r opsiynau canlynol: 'Cytuno'n gryf', 'Cytuno', 'Niwtral', 'Anghytuno' neu 'Anghytuno'n gryf'.



- Roedd tua 26% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad. Roedd dros 35% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad.
- Dyweddodd grwpiau ffocws wrthym hefyd fod y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr o'r farn bod y Cyngor wedi creu fframwaith adrodd gyda thargedau perfformiad ar waith. Fodd bynnag, dywedodd yr un gwaith hwnnw wrthym fod dealltwriaeth gymsg o sut y byddai cynnydd yn cael ei fesur a'i fonitro:

- Roedd 64% o'r cynrychiolwyr ar draws pob un o'n grwpiau ffocws yn cytuno â'r datganiad, 'Mae mesurau perfformiad clir ar waith i ddangos sut mae uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer yr amgylchedd yn mynd rhagddynt'. Roedd 18% yn anghytuno â'r datganiad a dewisodd 18% arall yr opsiwn 'Ddim yn Gwybod'.
 - Roedd 59% o'r cynrychiolwyr ar draws pob un o'n grwpiau ffocws yn cytuno â'r datganiad, 'Mae fframwaith adrodd clir ar waith ar gyfer uchelgeisiau amgylcheddol y Cyngor a'i weithredoedd.' Roedd 17% yn anghytuno a dewisodd 24% yr opsiwn 'Ddim yn Gwybod'.
 - Gall y diffyg ymwybyddiaeth fod oherwydd diffyg gohebu ynghylch sut y caiff perfformiad ei fonitro neu gall fod oherwydd nad yw'r cylch canlyniadau cyntaf ar gyfer Chwarter 1 2021-22 wedi'i gyhoeddi eto. Dywedodd y Rheolwr Newid Hinsawdd wrthym ei bod yn bwriadu adolygu canlyniadau Chwarter 1 yn fanwl cyn gynted ag y byddant ar gael ym mis Awst-Medi 2021.
- Yn ogystal â'i nod di-garbon net, mae gan y Cyngor darged pellach i leihau cyfanswm y carbon a allyrrir o'i gadwyn gyflenwi 35% (o'i linell sylfaen ar gyfer 2019-20) erbyn 31 Mawrth 2030. Y nod yw lleihau'r carbon sy'n cael ei ollwng o'r gadwyn gyflenwi drwy gefnogi cyflenwyr lleol i fod yn garbon isel, gan sicrhau'r buddion gorau i gymunedol lleol. Mae swyddogion sy'n arwain y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn gweithio gyda Thîm Caffael y Cyngor i ddatblygu Strategaeth Gaffael newydd sy'n ystyried newid hinsawdd ac yn helpu i roi cyflenwyr mewn sefyllfa i leihau eu hôl troed carbon. Mae gwaith ychwanegol yn cynnwys diwygio'r broses gwerthuso tendrau; darparu canllawiau, gweithdai ac enghreifftiau o astudiaethau achos i gyflenwyr; adolygu rheolau prynu'r Cyngor; a hyfforddi swyddogion caffael.
- Mae'r Cyngor yn ymwybodol o gyfyngiadau'r dull casglu data presennol ond mae'n credu ei bod yn bwysicach cael mesur ar waith a gweithredu na threulio amser yn perffeithio'r dull gweithredu. Er enghraifft:
 - Nid oes methodoleg wedi'i chytuno ar gyfer monitro dal a storio carbon fesul coeden. Mae methodoleg Llywodraeth Cymru yn gweithio fesul cynefin lle na fyddai un goeden fawr ar ystad yn cael ei chyfrif.
 - Mae'r Cyngor yn rheoli nifer o gynefinoedd penodol i gefnogi a gwarchod rhywogaethau prin. Rheolir y cynefinoedd hyn mewn ffordd sydd â phwyslais ar gefnogi'r rhywogaethau prin. Efallai bod y cynefinoedd hyn yn cynnal amrywiaeth is o rywogaethau na chynefinoedd eraill mwy cyffredin, ond mae'r cymunedau planhigion ac anifeiliaid y maent yn eu cynnal yn aml yn brin ac yn arbenigol ac ni ellir dod o hyd iddynt yn unman arall yn Sir Ddinbych.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Management response

Report title: Delivering Environmental Ambitions – Denbighshire County Council

Completion date: October 2021

Document reference: 2651A2021-22

Ref	Recommendation	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
Tudalen 49 R1	<p>Embed the ambition further – evaluate assigned resources</p> <p>Review the assigned resources for the delivery of the Climate and Ecological Change Strategy 2021-22 to 2029-30:</p>	Clarity over the resources needed to deliver the Council's environmental ambitions	Yes	See below R1.1, 1.2 & 1.3	See below R1.1, 1.2 & 1.3	See below R1.1, 1.2 & 1.3

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
R1.1 Tudalen 50	Amend the wording in the financial section of the Strategy to clarify the total estimated costs to 2030.	Clarity over the resources needed to deliver the Council's environmental ambitions	Yes	<p>Wording on page 45 of strategy will be changed to:</p> <p><i>To deliver this strategy over the next 3 years (2021/22 – 2023/24) we think it will cost in at least £9 million pounds in total to deliver the projects needed to achieve all that we'd like. We suspect we will need to invest a similar figure every 3 years (2024/25 – 2026/27 & 2027/28- 2029/30) leading up to 2030.</i></p> <p>Revised version will be uploaded onto Council website in Welsh and English.</p>	31 st January 2022	Andrew Cutts

Ref	Recommendation	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
R1.2	Review the identified funding requirements against the performance to indicate if sufficient money has been assigned to the Strategy.	Clarity over the resources needed to deliver the Council's environmental ambitions	Yes	<p>Appraisal has been completed for 2021/22 and 2022/23 and the following recommendation approved at Budget Board and Cabinet Briefing:</p> <ul style="list-style-type: none"> - to adjusted annual revenue pressure entered into the Medium Term Financial Plan for years 3 and 4 (2023/24 and 2024/25) of Climate and Ecological Change Strategy delivery to fund Net Carbon Zero and Ecologically Positive activity. 	<p>Completed for 2022/23.</p> <p>Annual review during the budget process each year.</p>	Andrew Cutts whilst Helen Vaughan-Evans on Mat Leave (Helen Vaughan-Evans thereafter) & Steve Gadd

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
				<p>This is due to the forecast from the appraisal being that the current level of annual investment isn't generating the level of carbon saving or carbon sequestration that is required in order for the Council to meet its Net Carbon Zero goal. Thus more will need to be done in future years.</p> <p>Note: budgets can only be set and approved annually in Local Government.</p>		

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
R1.3	Produce a workforce plan for the Climate and Ecological Change Programme to identify roles and areas of responsibility that may be under resourced.	Clarity over the resources needed to deliver the Council's environmental ambitions	Yes	<p>Completed for 2022/23 and costs of an additional 5.5 FTE entered into draft Council budget.</p> <p>Additional request for staff possible in 2023/24 for the following workstreams in order to support the Council achieving its Net Carbon Zero and Ecologically Positive goals: Land Use-Sequestration, Land Use-Biodiversity.</p> <p>A workforce plan for the Programme will be completed following the completion of the Council's overall workforce plan scheduled to be delivered by end of</p>	<p>31st March 2022</p> <p>Annual review during the budget process each year.</p>	Andrew Cutts whilst Helen Vaughan-Evans on Mat Leave (Helen Vaughan-Evans thereafter) & Alan Smith

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
				December. This will cover the remaining period of the strategy 2022/23 – 2029/30, look at data available of the current staff working on the programme, assess the capacity and capability needs now and likely to need in the future through horizon scanning the agenda to ensure we have the right people, in the right roles at the right time to deliver the 2030 goals.		
R2	Communication with citizens – formally analyse key stakeholders and partners	Clarity around key partnerships needed to deliver the Council's	Yes	See below R2.1, 2.2	See below R2.1, 2.2	See below R2.1, 2.2

Ref	Recommendation	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
	Complete key analyses to identify key resources in the delivery of the Climate and Ecological Change Strategy 2021-22 to 2029-30:	environmental ambitions				
R2.1	Undertake a formal analysis of existing and potential partners.	Clarity around key partnerships needed to deliver the Council's environmental ambitions	Yes	Process underway and will be completed by end of March. The mix of partnerships will change over the strategy period and a level of horizon scanning will be carried out to highlight potential partnerships we wish to develop in the future.	31 st March 2022 Annual review thereafter.	Andrew Cutts whilst Helen Vaughan-Evans on Mat Leave (Helen Vaughan-Evans thereafter) & Alan Smith

Ref	Recommendation	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
R2.2 Tudalen 56	Undertake the stakeholder mapping exercise in the Communications Plan.	Clarity around key partnerships needed to deliver the Council's environmental ambitions	Yes	Process underway and will be completed by end of March. It should be noted that this is a live activity and will be reviewed at least annually thereafter.	31 st March 2022 Annual review thereafter.	Liz Wilcox Jones & Sian Owen
R3	Communication with councillors and officers – further improve awareness of the environmental ambitions	Better understanding of what people need to do differently to deliver the Council's environmental ambitions	Yes	See below R3.1	See below R3.1	See below R3.1

Ref	Recommendation	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
R3.1	Review with service areas how they can clarify the impact of the environmental ambitions on their workforce's daily work.	Better understanding of what people need to do differently to deliver the Council's environmental ambitions	Yes	<p>This will be delivered via delivery of whole service workshops to every service in the Council over calendar year 2022.</p> <p>The workshop has been written and trialled with the Community and Customer Service in October 2021 with great feedback and impact. For example one suggested action generated during the workshop has already been completed by a team (partnering with police to reuse reprocessed bikes-giving the bikes to those seeking employment so they can get to work/ interviews).</p>	Christmas 2022	Andrew Cutts whilst Helen Vaughan-Evans on Mat Leave (Helen Vaughan-Evans thereafter), Jane Hodgson & Liz Wilcox-Jones

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
Tudalen 58				A version of the workshop needs to be produced for those frontline staff who are unable to come or join a virtual/non virtual workshop. This is particularly relevant for the Highways and Environmental Service and Community Support Service.		
R4	Review the findings from the employee survey and focus group work to understand how best to raise awareness of the environmental ambitions across the Council:	Targeted actions based on the findings from the staff survey	Yes	See below R4.1, 4.2, 4.3, 4.4	See below R4.1, 4.2, 4.3, 4.4	See below R4.1, 4.2, 4.3, 4.4

Ref	Recommendation	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
R4.1	Reinforce the ecologically positive goal alongside the net carbon zero goal.	Targeted actions based on the findings from the staff survey	Yes	<p>This will be an ongoing action for the Climate and Ecological Change Programme Operational Board, led by the Programme Sponsor and Climate Change Team working with Corporate Communication Team.</p> <p>This will be done through the various internal and external communication methods as listed in the Programmes Communication Plan.</p> <p>1.5 FTE dedicated staff within Corporate Communications team working on this agenda likely from 1st April 2022</p>	Ongoing	Andrew Cutts whilst Helen Vaughan-Evans on Mat Leave (Helen Vaughan-Evans thereafter) & Alan Smith

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
Tudalen 60				which will assist with this action.		
R4.2	Follow up on the service areas that reported low levels of awareness and not seeing guidance on the environmental ambitions.	Targeted actions based on the findings from the staff survey	Yes	<p>Paper and discussion at SLT on the survey results completed- 16th September 2021.</p> <p>Services reporting they were not aware of the environmental ambitions according to the survey results were as follows:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Schools (38.9%) - Denbighshire Leisure Ltd (31.3%) 	<p>Plan by 31st January 2022.</p> <p>Delivery over calendar year 2022.</p> <p>Annual review thereafter.</p>	Andrew Cutts whilst Helen Vaughan-Evans on Mat Leave (Helen Vaughan-Evans thereafter) & Alan Smith

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
				<ul style="list-style-type: none"> - Education and Children's Services (27.8%) <p>Services reporting not seeing guidance on environmental ambitions according to the survey results were as follows:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Schools (83.3%) - Denbighshire Leisure Ltd (75%) - Education and Children's Services (47.7%) <p>Schools</p> <ul style="list-style-type: none"> - Programme Sponsor and Programme Manager meeting 		

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
				<p>with Head of Education Services and Chair of the Headteacher's Forum where these results will be discussed and an approach/ set of actions agreed for increasing awareness</p> <ul style="list-style-type: none"> - Delivery of those actions throughout 2022. <p>Note: Schools are a devolved entity to the Council in terms of budget and management.</p> <p>Denbighshire Leisure Limited</p> <ul style="list-style-type: none"> - Climate and Ecological Change Programme on 		

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
				<p>agenda for the Operational Board (Board between Council and arm's length company DLL) on November 22nd where these results will be discussed and an approach/ set of actions agreed for increasing awareness</p> <ul style="list-style-type: none"> - Delivery of those actions throughout 2022. <p>Note: DLL are a wholly owned arm's length company to the Council.</p> <p>Education and Children's Services</p>		

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
				<ul style="list-style-type: none">- Programme Sponsor and Programme Manager meeting with Joint Heads of Education and Children's Services where these results will be discussed and an approach/ set of actions agreed for increasing awareness- Workshop action mentioned in R3.1 will be completed with this Service area early on in 2022.		

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
R4.3	Produce and communicate a plan to roll out training as wide as possible through the organisation on carbon literacy.	Targeted actions based on the findings from the staff survey	Yes	<p>Plan completed and as follows:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Plug training gaps for the 1 day accredited Carbon Literacy training for members of SLT and Councillor. o i.e. SLT members who missed out in Feb/Mar 2021 (by 31st March 2022- ref: corporate risk mitigation) o New SLT members as and when 	<p>Plan Completed</p> <p>Toolbox talk version- by 31st March 2022</p> <p>Ongoing Delivery annually</p>	Andrew Cutts whilst Helen Vaughan-Evans on Mat Leave (Helen Vaughan-Evans thereafter)

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
				<p>(note: 2 SLT members retiring in next 6 months)</p> <ul style="list-style-type: none">○ Post elections in May 2022, offer course to new councillor and returning councillors who missed out in Feb/Mar 2021.- Continue to publicise and encourage staff to complete the 'Introduction to		

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
				<p>Climate Change' e learning module through HR Business Partners and statistic reporting</p> <ul style="list-style-type: none"> - Create a tool box talk version of the 'Introduction to Climate Change' training to deliver to front line staff in Highways and Environmental Service and Community Support Service. <p>This was discussed at SLT on 16th September.</p>		

Ref	Recommendation	Intended outcome/benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
Tudalen 68	R4.4 Produce and communicate a plan to develop training on the ecological literacy.	Targeted actions based on the findings from the staff survey	Yes	<p>Delivery on training plan ongoing.</p> <p>Plan completed and as follows:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Procure supplier for 1-day Ecological Literacy Training (e.g. Nature Wise) to be delivered virtually in house to SLT, Councillors, Middle Managers and Project Managers (up to 250 learners depending on cost) - Procure supplier for creation of a 'Introduction to 	<p>Plan Completed</p> <p>Delivery of assets (1-day course and e-learn)- 31st March 2022</p> <p>Ongoing Delivery annually</p>	Andrew Cutts whilst Helen Vaughan-Evans on Mat Leave (Helen Vaughan-Evans thereafter) & Liz Wilcox-Jones

Ref	Recommendation	Intended outcome/ benefit	High priority (yes/no)	Management response	Completion date	Responsible officer
Tudalen 69				<p>Nature Decline/Recovery' e learn and launch for all staff</p> <ul style="list-style-type: none"> - Create a tool box talk version of the 'Introduction to Nature Decline/Recovery' training to deliver to front line staff in Highways and Environmental Service and Community Support Service. <p>This was discussed at SLT on 16th September.</p>		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod	26 Ionawr 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Julian Thompson Hill
Awdur yr Adroddiad:	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Diweddariad ar Gynllunio ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2021/22

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo a gymeradwyr. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynllunio ac amseriad Datganiad Cyfrifon 2021/22.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi dirprwyo cyfrifoldeb i gymeradwyo cyfrifon wedi'u harchwilio. Mae'r adroddiad yn ailadrodd y materion a brofwyd llynedd a goblygiadau hynny yw cael cynlluniau wrth symud ymlaen i sicrhau bod y cyfrifon terfynol yn cael eu cymeradwyo gan pwyllgor yn brydlon.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r diweddariad ar gynllunio i sicrhau bod Datganiad Cyfrifon 2021/22 yn cael ei gwblhau ar amser.

3.2 Cytuno i ddiwygio rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor er mwyn ystyried fersiwn ddrafft Datganiad Cyfrifon yn y cyfarfod ar 27 Gorffennaf a derbyn fersiwn derfynol y Datganiad Cyfrifon ac adroddiad archwilio Archwilio Cymru yn y cyfarfod ar 21 Medi.

4. Manylion yr adroddiad

Llynedd cyhoeddodd Llywodraeth Cymru canllawiau eto yn nodi, oherwydd effaith parhaus Covid, y byddai terfynau amser statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon Drafft ac Archwiliwyd yn cael eu hymestyn fel nodwyd yn y tabl isod. Cymerodd CSDd y penderfyniad cynnar i gyhoeddi rhybudd i nodi na fyddwn yn anelu at y dyddiad cau cynnar statudol ond y byddai'n cyflawni'r dyddiadau cau diwygiedig. Cymerwyd y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad gydag Archwilio Cymru yn sgil eu hasesiad o'u gallu i gwblhau'r gwaith archwilio gofynnol. Fe nodwyd y byddai hon yn flwyddyn heriol i bawb, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael ar amser.

Eitem	Dyddiad Cau statudol	Dyddiad Cau estynedig
Datganiad Cyfrifon Drafft	31 Mai 2021	31 Awst 2021
Datganiad Cyfrifon a Archwiliwyd	31 Gorffennaf 2021	30 Tachwedd 2021

Fe wnaethon ni gydweithio'n agos gydag Archwilio Cymru a gwasanaethau CSDd eraill i gyrraedd safle lle roeddem yn gallu cyflwyno set derfynol o gyfrifon i gyfarfod mis Tachwedd. Serch hynny, pwysleisiwyd yn y cyfarfod hwnnw effaith yr oedi ar waith y tîm cyllid:

- Yn gyntaf, roedd yr oedi'n golygu nad oedd gennym amser i gywiro datganiadau anghywir y byddwn wedi'u gwneud fel arfer - bydd y cywiriadau hyn yn cael eu gwneud ar gyfer cyfrifon blwyddyn nesaf.
- Yn ail, mewn blwyddyn arferol, mae ffocws ac egni'r Tîm Cyfalaf a Thechnegol o fis Medi yn troi at gynllunio cyfalaf strategol, gosod cyllideb, mynd i'r afael ag argymhellion Archwiliad Mewnol a chynllunio ar gyfer prosesau cau cyfrifon y flwyddyn nesaf. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cael eu gohirio am 3 mis ychwanegol a byddant yn cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Addawyd yn y cyfarfod y byddwn yn dod ag adroddiad i'r cyfarfod hwn i nodi ein cynlluniau ar gyfer sicrhau bod Datganiad Cyfrifon 2021/22 yn cael ei gwblhau yn brydlon. Mae cyfarfodydd cynllunio wedi cael eu cynnal ym mis Rhagfyr yn fewnol, a chydag Archwilio Cymru. Mae'r trafodaethau hynny wedi arwain ar y cynnig ein bod yn gwneud penderfyniad cynnar, na fyddwn yn gallu bodloni Terfynau Amser Statudol 31 Mai a 31 Gorffennaf (nad ydym erioed wedi eu bodloni), ond ein bod yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn cydgrynhau prosesau ac anelu at fodloni'r terfynau amser traddodiadol, fel a nodwyd yn y tabl uchod:

Dydd Mercher 15 Mehefin	Cyfrifon endid sengl drafft wedi'u cwblhau
Dydd Gwener 24 Mehefin	Cyfrifon Grŵp Drafft yn barod i'w llofnodi
Dydd Mercher 27 Gorffennaf	Cyfrifon Drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dydd Mercher 21 Medi	Cyfrifon Terfynol a Archwiliwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Ac eithrio bod y rheoliadau ffurfiol yn newid, bydd angen i ni gyhoeddi rhybudd eto'n agosach at yr amser i nodi'r amserlen arfaethedig, ac esbonio'r rhesymau dros beidio bodloni'r terfynau amser statudol. Y prif resymau yw:

- Mae'r oedi estynedig ar gyfer cwblhau'r gwaith ar Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 wedi effeithio ar y gallu i gynllunio a gwneud gwelliannau pellach i brosesau, er mwyn ein caniatáu i gynllunio ar gyfer cwblhau'r Cyfrif Drafft erbyn 31 Mai
- Mae trafodaethau gydag Archwilio Cymru wedi nodi, petai hynny'n bosiblwydd, mae'n annhebygol iawn y byddai adnoddau ganddynt ar gael i sicrhau bod set derfynol o gyfrifon a archwiliwyd wedi cael eu cwblhau ar gyfer eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf y pwyllgor hwn

Fel y nodwyd uchod, mae'r safle hwn wedi cael ei drafod a'i gymeradwyo gydag Archwilio Cymru.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenorriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenorriaethau'r Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae gweithdrefnau a phrosesau'r Cyngor sy'n sail i lunio'r cyfrifon yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol ei cheisio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill y tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon yn gadarn. Mae'r terfynau amser arfaethedig newydd yn ein caniatáu i gwblhau proses Datganiad Cyfrifon yn brydlon, gan sicrhau bod ansawdd a chywirdeb yn cael ei gynnal.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai'r Cyngor yn mynd yn groes i'w ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Tachwedd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae Ddeddf Archwilio Cyhoeddus

